THE SCHOOL AT THE HEART OF WALES

# CYLCHLYTHYR

5ed RHAGFYR 2022



## Cyhoeddwyd Adroddiad ESTYN Ysgol Calon Cymru

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Mae'n bleser gennyf eich hysbysu bod Adroddiad ESTYN Ysgol Calon Cymru wedi cael ei gyhoeddi ac rydym wedi cael asesiad cadarnhaol ar y cyfan o'r ysgol yn ystod yr arolygiaeth ym mis Hydref. Gallwch ddarllen yr adroddiad ar wefan ESTYN: https://www.estyn.gov.wales/provider/6664025

*Campws Llanfair-ym-Muallt, Ffordd y Coleg, Llanfair-ym-Muallt, Powys, LD2 3BW*
*Builth Wells Campus, College Road, Builth Wells, Powys, LD2 3BW*
*Ffôn / Phone 01982 553292*

*Campws Llandrindod, Heol Dyffryn, Llandrindod, Powys, LD1 6AW*
*Llandrindod Wells Campus, Dyffryn Road, Llandrindod Wells, Powys LD1 6AW*
*Ffôn / Phone 01597 822992*

WAS In partnership with National Children's Bureau — Wellbeing Award for Schools 2022-2025


Gan gofio heriau’r ddwy flynedd ddiwethaf, dylai pawb yn Ysgol Calon Cymru – o staff yr ysgol i ddisgyblion a rhieni a gofalwyr – ymfalchïo yn y canlyniad hwn. Mae’r adroddiad yn dathlu ein cryfderau pellgyrhaeddol ac yn rhoi adrborth defnyddiol iawn i ni wella ymhellach. Mae’n gwbl amlwg nawr bod rhaid i ni ganolbwyntio’n gadarn ar addysgu a dysgu a gweithio er mwyn sicrhau cysondeb a safonau uchel ar draws yr ysgol. Mae hyn yn rhywbeth y mae holl staff yr ysgol wedi ymrwymo i’w gyflawni yn y tymor byr a pharhau i sicrhau gynnal y safonau uchel hyn yn y blynyddoedd academaidd i ddod.

Yr hyn sydd fwyaf canlonogol i fi’n bersonol yw bod yr arolygiaeth wedi cydnabod yn glir ein bod yn gwybod beth yw ein cryfderau a meysydd i’w datblygu. Fel ysgol, rydym yn gwerthuso’n gadarn bopeth a wnawn, ac rwy’n falch y nodwyd hyn. Yn YCC, rydym am sicrhau bod pob cam o’n cynnydd yn adeiladu seiliau cryf a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae’r adroddiad hwn yn fynegiad o’r hyder sydd gan ESTYN yn y cyfeiriad y mae Ysgol Calon Cymru yn anelu ato, ac yn gydnabyddiaeth ein bod wedi datblygu a’n bod yn parhau i ddatblygu trwy’r broses werthuso.

Diolch am eich cefnogaeth barhaol ac am weithio mewn partneriaeth gyda ni yn ystod yr arolygiad diweddaraf. Yn Ysgol Calon Cymru rydym yn gwybod bod safonau uchel am oes c nid dim ond yn ystod wythnos arolygiad, a bod pawb yn yr ysgol yn gwbl ymrwymedig i gyflawni’r canlyniadau gorau posibl i’n disgyblion i gyd.

Fel bob amser, cofiwch gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder yn sgil cyhoeddi’r Adroddiad ESTYN hwn. Y ffordd orau i gysylltu â’r ysgol yw trwy gyfrwng y manylion a restrir ar y wefan: [www.ysgolcalon.cymru/contact](www.ysgolcalon.cymru/contact)

Cofion Cynnes,





Dr. Richard Jones
Pennaeth, Ysgol Calon Cymru